## CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | *Adroddiad Blynyddol – Ffordd Gwynedd 2024-25* |
| **Aelod Cabinet:** | *Y Cyng. Nia Jeffreys, Arweinydd Cyngor Gwynedd* |
| **Swyddog perthnasol:** | *Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol* |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | *8 Gorffennaf 2025* |

1. **Penderfyniad a Geisir:**
   Cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Blynyddol Ffordd Gwynedd 2024/25 (**Atodiad 1**).

2. **Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**
   Adnabuwyd Cynllun Ffordd Gwynedd fel un o brif flaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023-28 ac fe ymrwymwyd i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd y gwaith i'r dyfodol. Dyma'r ail yn y gyfres o'r adroddiadau y bwriedir eu cyhoeddi ymhob un o'r pum mlynedd nesaf.
   Rhennir yr adroddiad gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth o'r datblygiadau sydd yn derbyn sylw o fewn y naw ffrwd gwaith a nodir yn y Cynllun.

3. **Cyflwyniad a Rhesymeg**

### 3.1 Cefndir/ Cyflwyniad

Er mwyn meithrin yr amgylchedd gwaith gorau posibl i'n staff a thrawsnewid y gwasanaethau rydym yn eu darparu, mae Cynllun Ffordd Gwynedd yn canolbwyntio ar ddatblygu diwylliant a sefydliad y Cyngor, h.y., y "ffordd rydym yn gweithio".

Mae Cynllun Ffordd Gwynedd yn flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2023-28 ac wedi ei roi ar waith er mwyn plethu ffrydiau gwaith o fewn y Cyngor sy'n rhoi sylw i'n gweithlu ac yn ceisio sicrhau bod gennym weithlu sy'n ffynnu yn y gwaith a gallu rhoi'r Gwasanaeth gorau posibl i'r cyhoedd.

Mae'r adroddiad hon yn darparu gwybodaeth ynghylch y cynnydd yn erbyn yr hyn a nodir yn ystod ail flwyddyn y Cynllun cyfredol. Y bwriad yw darparu adroddiad cytbwys, sy'n rhoi sylw i'r agweddau na lwyddwyd i'w cyflawni yn ogystal ag i'r agweddau cadarnhaol.

### 3.2 Rhesymeg a chyflwyniad dros argymell y penderfyniad

Mae trefniadau llywodraethu’r Cynllun ar gyfer 2023-28 yn nodi y byddwn yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cabinet ar gynnydd y “ffordd o weithio”. Mae’r rhesymeg ar gyfer argymell y penderfyniad a geisir yn gynwysedig yn yr adroddiad honno.

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Fel rhan o’r broses o baratoi Cynllun Ffordd Gwynedd 2023-28 paratowyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb (a gyflwynwyd i’r Cabinet 07/03/ 2023). Nid yw’r asesiad ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn canfod unrhyw effaith fyddai’n cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**

Er mwyn cwrdd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol mae angen i ni adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf ac yn benodol yr amcanion llesiant sydd wedi eu mabwysiadu gennym. Mae’r adroddiad hon wedi'i llunio ar sail ein hamcanion llesiant (y saith maes blaenoriaeth) gan amlinellu’r hyn sydd wedi ei gyflawni yn y cyfnod dan sylw.

### 3.3 Camau nesaf

Mae’r blaenoriaethau ar gyfer gyrru’r gwaith yn ei flaen yn ystod trydydd blwyddyn y Cynllun yn cael eu nodi yn yr Adroddiad Blynyddol.

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol.

### 4.1 Prif Swyddog Cyllid

Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

### 4.2 Swyddog Monitro

Rwy’n fodlon gyda priodoldeb yr  adroddiad a’r argymhelliad.

**Rhestr Atodiadau:**

1. Adroddiad Blynyddol 2024-25

**Rhestr Dogfennau Cefndir:**

a. Cynllun Ffordd Gwynedd